

Mae'r Gyfnewidfa Addysg Busnes yn rhoi cyfle i gyflogwyr weithio gydag ysgolion i ddatblygu rhaglenni cyffrous i gyfoethogi'r cwricwlwm i ddisgyblion. Mae'n gronfa ddata sydd wedi'i hwyluso gan Gyrfa Cymru.

Mae'r Gyfnewidfa Addysg Busnes yn dod ag ysgolion a busnesau ynghyd.

**Mae'n caniatáu i gyflogwyr:**

- Weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion a chreu cysylltiadau gyda gweithlu'r genhedlaeth nesaf
- Ysgogi brwdfrydedd unigolion am eu cyfraniad posibl mewn gwaith
- Rhoi gwybod iddynt am gyfleoedd posibl yn eich busnes ar gyfer y dyfodol

Gallwch wella delwedd ac enw da eich cwmni ar lefel leol neu ranbarthol.


Mae datblygu cysylltiadau ag ysgolion yn codi ymwybyddiaeth o'r cwmni ac yn helpu i ddatblygu delwedd bositif nid yn unig gyda phobl ifanc ond gyda'u rhieni a'u hathrawon a'r gymuned leol hefyd.\*\*

100%

\*mykindafuture.com. \*\*CBI

## Sut mae cyflogwyr yn elwa o hyn?

Gall cymryd rhan fod o fudd mawr i chi:



**Gall ysgogi a datblygu gweithwyr.** Mae cymryd rhan mewn cyflwyniadau ysgol neu gefnogi person ifanc i ddeall byd gwaith, yn datblygu sgiliau eich timau chi eich hun.\*\*

Mae 94% o bobl ifanc yn awyddus i weld cyflogwyr yn dod i'w hysgol i gynnal gweithdai rhyngweithiol, i roi cyngor iddynt neu roi gwybodaeth am gyfleoedd gwaith posibl.\*

## Cymerwch ran


**Rydym yn chwilio am gyflogwyr ac unigolion sy'n fodlon gweithio gydag ysgolion ac yn awyddus i wneud hynny.**

Gall hyn fod drwy gynnig profiad gwaith tymor byr neu hirdymor, sesiynau blasu neu ymweliadau â'ch safle, siaradwr gwadd yn yr ysgol neu ddsbarthiadau meistr ar agwedd benodol ar eich gwaith.

Yn yr un modd, gall cyflogwyr gyfrannu drwy helpu pobl ifanc i ddeall sut mae pynciau ysgol yn berthnasol i'r gweithle a'u hannog i gyflawni eu potensial.

## Sut y bydd y Gyfnewidfa Addysg Busnes yn gweithio?

1. Mae cyflogwyr yn cytuno i gael eu hychwanegu at y Gronfa gan nodi:



2. Mae ysgolion yn chwilio'r gronfa ddata ac yn dewis busnesau yn seiliedig ar yr hyn sydd ei angen arnynt.



3. Mae timau Cyswllt Busnes Gyrfa Cymru yn hwyluso cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r busnes er mwyn dechrau'r broses.



Rhagor o wybodaeth:

[www.gyrfacymru.com/CAB](http://www.gyrfacymru.com/CAB)

Twitter @Cyfnewidfa\_AB

Os hoffech glywed mwy gan aelod o'n Tîm Cyswllt Busnes cysylltwch â ni:

0800 028 4844  
post@gyrfacymru.com

Edrychwn ymlaen at glywed gennych

Dod ag ysgolion a busnesau ynghyd